

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol Cynllun Iaith Gymraeg

**Adroddiad Monitro Blynyddol 2019 - 20 i Gomisiynydd y
Gymraeg**

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	3
2. Cefndir	4
3. Recriwtio	5
4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg	8
5. Y Pwyllgor Materion Cymreig	11

1. Rhagarweiniad

Dyma'r pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Iaith Gymraeg sydd wedi'i baratoi gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Mae'n ymwneud â'r cyfnod o 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020. Mae'n dangos y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran rhoi ein cynllun ar waith ers i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ei gymeradwyo ym mis Mai 2016. Mae'r cynllun ar gael ar wefan y Comisiwn: <https://www.judicialappointments.gov.uk/welsh-language-scheme> ac <https://judicialappointments.gov.uk/welsh-language-scheme/>

Cyn hyn, roedd y Comisiwn yn rhan o Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Fe wnaethom ddatblygu'r cynllun gwirfoddol, arbenigol hwn er mwyn esbonio'n well sut rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n esbonio sut gall ymgeiswyr ar gyfer penodiadau barnwrol gyfathrebu â'r Comisiwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis personol.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut rydym yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Dylid dehongli cwmpas ein hymrwymadau fel bod yn berthnasol i'r gweithgareddau a'r gwasanaethau recriwtio hynny yng Nghymru y gallwn eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

2. Cefndir

Sefydlwyd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar 3 Ebrill 2006 o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n cael ei noddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Rydym yn dewis ymgeiswyr ar gyfer y swyddfa farnwrol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer rhai tribiwnlysoedd gydag awdurdodaeth ledled y DU. Bydd ymgeiswyr yn cael eu dewis yn ôl teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, ac rydym wedi ymrwmo i ddenu ymgeiswyr o feysydd mor eang â phosibl. Rydym yn gweithio gydag ystod o sefydliadau i hyrwyddo swyddi gwag i ymgeiswyr cymwys.

Cafodd y Cynllun Iaith Gymraeg drafft ei gymeradwyo gan Fwrdd y Comisiwn ym mis Medi 2015, ar ôl cynnal ymgynghoriad â'r cyhoedd. Aeth yr ymgynghoriad yn fyw ar 9 Hydref 2015, lle cafodd ei gyhoeddi'n ffurfiol yng Nghynhadledd Gyfreithiol Cymru 2015 gan Christopher Stephens, cyn-Gadeirydd y Comisiwn, a'r diweddar Athro Noel Lloyd, cyn-Gomisiynydd y Comisiwn a chanddo gyfrifoldeb dros Gymru. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i Gynllun Iaith Gymraeg penodol ar gyfer y Comisiwn. Roedd llawer o ymatebion yn cynnig gwelliannau i'r drafft ac awgrymiadau ar gyfer mireinio, ac fe wnaeth ymateb y Comisiwn i'r ymgynghoriad egluro sut roedd yr ymatebion wedi dylanwadu ar y polisi.

3. Recriwtio

Sefydliad yn Llundain yw'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol gyda tua 70 aelod o staff. Nid oes ganddo bresenoldeb cyflenwi parhaol yng Nghymru. Nid yw Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn cynnwys recriwtio staff y Comisiwn gan nad oes unrhyw ofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi'u nodi ar gyfer staff.

Pan fo angen sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer penodiad barnwrol, mae gennym fynediad at aelod panel sy'n siarad Cymraeg yn ein cnewyllyn o aelodau panel lle ydychyd i eistedd ar baneli ymarfer dethol. Maent yn cael cwmni aelodau o'r farnwriaeth sy'n siarad Cymraeg ac yn cael eu dyrannu i'r Comisiwn yn ôl y gofyn i eistedd ar baneli dethol. Mae ymarferion dethol lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn ofynnol yn destun proses sicrhau ansawdd gan Gomisiynydd y Comisiwn â gwybodaeth arbennig am Gymru, neu'r Comisiynydd sydd wedi cael ei neilltuo i'r ymarfer.

Gofyniad ar gyfer dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru

Mae maen prawf dethol ychwanegol yn berthnasol i swyddi gwag yng Nghymru. Mae'r maen prawf wedi'i gymeradwyo gan yr Arglwydd Ganghellor ac yn nodi:

“Bydd yn rhaid i ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru feddu ar ddealltwriaeth o sut gweinyddir cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a threfniadau datganoli yng Nghymru, neu'r gallu i feithrin y ddealltwriaeth hon”.

Pan fydd ymgeiswyr yn gwneud cais am swyddi yng Nghymru, gofynnir nifer o gwestiynau sy'n benodol i bob ymarfer yn ystod y cam cyfweld, gydag ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar sail eu dealltwriaeth o faterion perthnasol i Gymru.

Ymarferion dethol 2019 - 20

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn adrodd yn flynyddol ar nifer yr ymarferion sy'n cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn adrodd.¹ Cafodd y cynllun iaith Gymraeg ei roi ar waith ym mis Mai 2016 a chafodd ei gymhwyso ar gyfer ymarferion dethol a aeth i'r camau cynllunio o'r adeg honno ymlaen. Mae'r adran hon yn manylu ar ymarferion dethol a gafodd eu cwblhau a'u hadrodd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 er mwyn rhoi trosolwg o'r broses recriwtio barnwrol yng Nghymru.

Cafodd 35 o ymarferion dethol eu cwblhau a'u hadrodd yn 2019–20. Bydd y maes busnes a'r farnwriaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer swyddi gwag o safbwynt y Gymraeg, a bydd y Comisiwn yn asesu'r ymgeiswyr yn erbyn y rhain. Mae'r Comisiwn yn parhau i gynnal ymarferion dethol pan fo'r Gymraeg wedi cael ei nodi fel gofyniad ar gyfer un neu ragor o swyddi.

¹ <https://www.judicialappointments.gov.uk/jac-annual-reports>

Roedd yr ymarferion dethol canlynol wedi nodi swyddi gwag yng Nghymru lle roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol:

- **Cofnodwr.** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer dwy swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Cofnodwr. Cafodd yr ymarfer cenedlaethol ei lansio ar 19 Mehefin 2018 gyda chyfanswm o 160 o swyddi gwag, gan gynnwys swyddi a oedd yn gofyn am ddealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Cafodd 19 ymgeisydd eu hargymell fel bod yn addas i'w penodi i swyddi yng Nghymru, gan gynnwys un ymgeisydd ar gyfer rôl cyfrwng Cymraeg.
- **Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon).** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer dwy swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon). Cafodd yr ymarfer hwn ei lansio ar 20 Medi 2018 gyda 30 o swyddi gwag. Cafodd ymgeiswyr eu profi ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd. Cafodd pedwar ymgeisydd eu hargymell ar gyfer swyddi yng Nghymru, gan gynnwys dau ar gyfer y rolau cyfrwng Cymraeg.
- **Barnwr Rhanbarth.** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer un swydd yng Nghymru yn yr ymarfer dethol ar gyfer Barnwr Rhanbarth. Cafodd yr ymarfer hwn ei lansio ar 1 Tachwedd 2018 gyda 92 o swyddi gwag ar y pryd, a 18 yn y dyfodol. Cafodd ymgeiswyr eu profi ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd. Argymhellwyd bod pedwar ymgeisydd yn cael eu penodi ar unwaith i swyddi yng Nghymru, gan gynnwys un ymgeisydd ar gyfer y rôl cyfrwng Cymraeg.
- **Barnwr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi a Barnwr y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cymru a Lloegr) sy'n Derbyn Ffi.** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer tair swydd yn yr ymarfer ar gyfer Barnwr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi a Barnwr y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cymru a Lloegr) sy'n Derbyn Ffi. Cafodd yr ymarfer hwn ei lansio ar 20 Mawrth 2019 gyda hyd at 222 o swyddi gwag. Cafodd ymgeiswyr eu profi ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd. Cafodd 10 ymgeisydd eu hargymell ar gyfer swyddi yng Nghymru, ond yn anffodus ni chafodd unrhyw ymgeisydd a oedd wedi mynegi diddordeb yn y swyddi yng Nghymru eu hargymell ar gyfer y rolau cyfrwng Cymraeg.
- **Dirprwy Farnwr Rhanbarth.** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer tair swydd yn yr ymarfer ar gyfer Dirprwy Farnwr Rhanbarth. Cafodd yr ymarfer hwn ei lansio ar 20 Mawrth 2019 gyda hyd at 200 o swyddi ar y pryd. Cafodd ymgeiswyr eu profi ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd. Cafodd pedwar ymgeisydd eu hargymell ar gyfer rolau cyfrwng Cymraeg ac 13 ar gyfer swyddi Cymreig, ar sail eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.
- **Aelodau Cyfreithiol o Dribiwnlys y Gymraeg.** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer un swydd yn yr ymarfer ar gyfer Aelodau Cyfreithiol o Dribiwnlys y Gymraeg. Cafodd ymgeiswyr eu profi ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd. Cafodd un ymgeisydd ei argymell ar gyfer y rôl.

Nid oedd gofyniad o ran y Gymraeg yn berthnasol i'r ymarferion dethol canlynol ar gyfer swyddi gwag yng Nghymru, ond roeddent wedi profi dealltwriaeth ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Barnwr Cyflogedig Tribiwnlys yr Haen Gyntaf.** Cafodd yr ymarfer ar gyfer Barnwr Cyflogedig Tribiwnlys yr Haen Gyntaf ei lansio ar 6 Tachwedd 2018 gyda 100 o swyddi gwag, a gynyddodd i 120 yn nes ymlaen, gyda phum swydd yng Nghymru. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Wedi hynny, cafodd saith ymgeisydd eu hargymell ar gyfer rolau cyfrwng Cymraeg. Y Llywyddion Siambr oedd yn gyfrifol am ystyried eu lleoliad.
- **Barnwr Cylchdaith.** Cafodd yr ymarfer ar gyfer Barnwr Cylchdaith ei lansio ar 23 Ionawr 2019 gyda 29 o swyddi gwag ar y pryd, a 21 yn y dyfodol. Ni nodwyd nifer y swyddi yng Nghymru ond cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod tri ymgeisydd yn cael eu penodi i rolau cyfrwng Cymraeg.
- **Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon).** Cafodd yr ymarfer ar gyfer Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) ei lansio ar 5 Mawrth 2019 gyda 25 o swyddi gwag. Ni nodwyd nifer y swyddi yng Nghymru ond cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Cafodd 17 ymgeisydd eu hargymell ar gyfer rolau cyfrwng Cymraeg.
- **Barnwr Rhanbarthol (y Siambr Mewnfudo a Lloches, a'r Siambr Hawliau Cymdeithasol).** Cafodd yr ymarfer ar gyfer Barnwr Rhanbarthol (y Siambr Mewnfudo a Lloches, a'r Siambr Hawliau Cymdeithasol) ei lansio ar 24 Ebrill 2019 gyda phum swydd wag. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Cafodd un ymgeisydd ei argymell ar gyfer rôl cyfrwng Cymraeg.
- **Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl (Cymru a Teesside).** Cafodd yr ymarfer ar gyfer Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl (Cymru a Teesside) ei lansio ar 25 Gorffennaf 2019 gyda dwy swydd wag, un yng Nghymru ac un yn Teesside. Dim ond ymgeisydd ar gyfer swydd Teesside a argymhellwyd.

Mae Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ofyn am gymorth gan gyrff cyhoeddus eraill. Rhoddodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol gymorth i Lywodraeth Cymru yn yr ymarferion canlynol:

- Cafodd yr ymarfer ar gyfer Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg ei lansio ar 26 Chwefror 2019 gydag un swydd wag. Oherwydd bod hon yn rôl arbenigol iawn, cafodd yr ymgeiswyr eu profi ar eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Cafodd un ymgeisydd ei argymell ar gyfer y rôl.

- Cafodd yr ymarfer ar gyfer Aelodau o'r Panel Addysgol ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sy'n derbyn ffi, ei lansio ar 15 Hydref 2019 gyda chwe swydd wag. Cafodd yr ymgeiswyr eu profi ar eu gallu i siarad Cymraeg. Cafodd pum ymgeisydd eu hargymell ar gyfer y rolau.
- Cafodd yr ymarfer ar gyfer Aelodau Cyfreithiol o Dribiwnlys y Gymraeg ei lansio ar 15 Mai 2019 gydag un swydd wag. Cafodd yr ymgeiswyr eu profi ar eu gallu i siarad Cymraeg. Cafodd un ymgeisydd ei argymell ar gyfer y rôl.

4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg

Ymarferion dethol

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn berthnasol i ymarferion dethol ar gyfer swyddi yng Nghymru a aeth i'r camau cynllunio ym mis Mai 2016 neu ar ôl hynny. Dim ond mewn achosion eithriadol y bydd y Comisiwn yn hysbysebu'n allanol. Roedd adran 'hysbysebu' ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu darpariaethau ar gyfer unrhyw achosion lle defnyddiwyd dulliau hysbysebu allanol. Ni ddefnyddiwyd unrhyw ddulliau hysbysebu allanol ar gyfer ymarferion dethol yng Nghymru yn ystod 2019-20.

Dros y cyfnod 2019–20, roeddem wedi cyhoeddi cyfieithiadau Cymraeg o ddeunyddiau ymarferion dethol ar gyfer yr ymarferion canlynol:

- Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg, a gafodd ei lansio ar 26 Chwefror 2019
- Barnwr sy'n Derbyn Ffi Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Cyflogaeth, a gafodd ei lansio ar 20 Mawrth 2019
- Dirprwy Farnwr Rhanbarth, a gafodd ei lansio ar 20 Mawrth 2019
- Aelodau o'r Panel Addysgol ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sy'n derbyn ffi
- Aelodau Cyfreithiol o Dribiwnlys y Gymraeg

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn nodi y byddwn yn hysbysebu swyddi sy'n golygu gweithio'n ddwyieithog yng Nghymru ar gyfryngau ar-lein y Comisiwn. Ond yn anffodus, yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, o ganlyniad i wall gweinyddol, ni chyhoeddwyd cyfieithiad Cymraeg o'r hysbyseb ar wefan y Comisiwn ar gyfer un ymarfer o'r fath: rôl Barnwr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, a gafodd ei lansio ar 8 Tachwedd 2018. Yn yr ymarfer hwn, o blith yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi mynegi diddordeb mewn swydd yng Nghymru, argymhellwyd bod saith yn cael eu penodi, ar ôl eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mae staff wedi cael eu hatgoffa o'r gofyniad ar gyfer cyfieithiadau ar yr un pryd mewn ymarferion sy'n cynnwys swyddi yng Nghymru, ac mae cyfres o weithdai hyfforddiant gloymi ar y gweill.

Ar ben hynny, yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi cyflwyno llwyfan digidol newydd yn lle'r system bresennol. O ganlyniad i hyn, nid oedd hi'n bosibl darparu cyfieithiadau Cymraeg o hysbysebion ar gyfer rolau barnwrol yn yr un lleoliad ar y we i

ddechrau. Cafodd atebion dros dro eu rhoi ar waith, gyda'r ymgeiswyr yn cael dolenni at y manylion.

Mae'r broblem hon wedi'i ddatrys yn barhaol bellach. Mae'r holl hysbysebion ar gyfer ymarferion dethol sy'n cynnwys rolau yng Nghymru yn cael eu hysbysebu ar yr un pryd yn yr un lleoliad ar y we.

Cwynion

Ni chafodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol unrhyw gwynion ffurfiol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu

Roedd y safonau adrodd a oedd wedi'u sefydlu'n flaenorol ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol wedi aros yr un fath ar gyfer 2019–20: argaeledd y Cynllun; cyngor a chanllawiau; gallu digidol; polisïau newydd a diwygiedig; a monitro ac adolygu.

Mae'r diweddariadau i'r cynllun gweithredu yn ystod 2019–20 wedi'u dangos mewn ffont trwm isod.

Thema a chyfeirnod	Gweithgaredd	Dyddiad targed	Cynnydd	Statws
Argaeledd	Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan a mewnrwyd y Comisiwn	Mawrth 2016	Yr ymgynghoriad i agor ym mis Hydref 2015 a chau ym mis Rhagfyr 2015, er mwyn i'r Comisiwn ymateb iddo ym mis Mawrth 2016	Wedi cwblhau. Y cyhoeddiad wedi'i ohirio yn sgil y cyfnod cyn etholiad 2016 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddwyd ar 23 Mai 2016.
Cyngor ac arweiniad	Datblygu canllaw mewnol i gyd-fynd â'r polisi, gan gynnwys asesu sgiliau iaith a gwybodaeth am amrywiaeth o ran y gyfraith, trefniadau datganoli ac ati.	Cyhoeddiad cyntaf ym mis Mawrth 2016. Adolygiad o ddogfennau polisi perthnasol yn dal yn mynd rhagddo	Wedi cwblhau Parhaus	Wedi cwblhau – y canllaw ar gael i'r holl staff o fis Mawrth 2016 ymlaen Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer staff gweithredol ym mis Ebrill 2016 cyn rhoi'r canllaw ar waith. Sesiynau hyfforddiant gloywi wedi'u cynnal yn ystod 2019-20 hefyd
Gallu digidol	Datblygu System Recriwtio Penodiadau Barnwrol (JARS) i gynnwys ffurflen gais ar-lein yn Gymraeg.	Parhaus	Gohiriwyd	Bydd y broses o wneud ffurflenni cais ar gael yn Gymraeg yn cael ei chynnal yn ystod y 12 mis nesaf.
Polisiâu newydd a diwygiedig	Ystyried effaith y polisiâu newydd a diwygiedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg	Parhaus	Bydd y broses o weithredu hyn yn cael ei monitro'n barhaus	Parhaus. Bellach mae ymgeiswyr yn gallu cyflwyno unrhyw adran naratif o Brawf Cymhwysyo yn Gymraeg, sydd wedyn yn cael ei chyfieithu.
Monitro ac arolygu	Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a fydd ar gael i Fwrdd a Phwyllgor Gwaith y Comisiwn; Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Nawdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Barnwr Cyswllt Cymru	Blynyddol		Wedi cwblhau: Adroddiad Monitro Blynyddol 2016-17 – cyhoeddwyd mis Hydref 2017 Adroddiad Monitro Blynyddol 2017-18 – cyhoeddwyd mis Tachwedd 2018 Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-2019 –

				cyhoeddwyd mis Rhagfyr 2019 Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-2020 – cyhoeddwyd mis Tachwedd 2020
--	--	--	--	--

5. Y Pwyllgor Materion Cymreig

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig yn is-bwyllgor o Fwrdd Comisiynu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Cadeirydd y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn oedd Brie Stevens-Hoare CF, Comisiynydd y Comisiwn, fel cadeirydd dros dro y Pwyllgor, ac roedd y Barnwr Rhanbarth Mathu Asokan yn aelod o'r Pwyllgor.

Ffurfiwyd y Pwyllgor yn dilyn cyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru a Chadeirydd y Comisiwn, y Gwir Anrhydeddus Athro Lord Ajay Kakkar, ynghyd â'r Athro Noel Lloyd. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Materion Cymreig ar 9 Mawrth 2017, ac mae'r Pwyllgor yn eistedd bob deufis.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw monitro effaith bosibl datganoli yng Nghymru ar y broses benodi ar gyfer swyddi barnwrol ledled Cymru a Lloegr, ac i sicrhau bod y Comisiwn yn ymwybodol o anghenion Cymru.

Yn ystod blwyddyn yr adroddiad, roedd y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:

- Ym mis Ionawr 2020, cafodd yr Arglwydd Kakkar, Cadeirydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, a Brie Stevens-Hoare CF gyfarfod â Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, i drafod y broses o ddethol ac argymell ymgeiswyr ar gyfer rolau barnwrol yng Nghymru
- Croesawu Pennaeth Tribiwnlysoedd Cymru mewn cyfarfod y Pwyllgor Materion Cymreig, gyda golwg ar wella'r cyfathrebu mewn cysylltiad â rolau barnwrol yng Nghymru
- Cymryd rhan yng Nghynhadledd Cymru'r Gyfraith ym mis Hydref 2019
- Parhau i fonitro datblygiadau Pwyllgor Hyfforddi Cymru i sicrhau bod profion y Comisiwn Penodiadau Barnwrol o wybodaeth am y Gymraeg yn ystyried gwaith y Coleg Barnwrol yn delio â goblygiadau deddfwriaeth ddatganoledig o ran hyfforddiant
- Monitro'r gwaith o gynnal ymarferion dethol yng Nghymru

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi ymateb ar ran y Comisiwn Penodiadau Barnwrol i'r ymgynghoriad canlynol a allai effeithio ar gyd-destun cyfreithiol Cymru:

- Dyfodol cyfraith Cymru: categoreiddio, cydgrynhoi, codeiddio

6. Comisiynydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol â gwybodaeth arbennig am Gymru

Ar 6 Gorffennaf 2020, cafodd y Gwir Barchedig Dr. Barry Morgan ei benodi'n Gomisiynydd Lleyg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol â gwybodaeth arbennig am Gymru. Cymerodd yr awenau fel Cadeirydd Pwyllgor Materion Cymreig y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Mae Barry yn Esgob Anglicanaidd Cymreig ac academydd o Gastell-nedd. Roedd ganddo swyddi plwyf a phrifysgol cyn dod yn Esgob Bangor yn 1993, Esgob Llandaf yn 1999, ac ef oedd Archesgob Cymru rhwng 2003 a 2017. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, daeth hi'n bosibl i ferched gael eu hordeinio fel offeiriaid ac esgobion, ac i weddïau gael eu cynnig i gyplau o'r un rhyw mewn gwasanaethau cyhoeddus yn yr Eglwys yng Nghymru

Yn ogystal â bod yn Ddirprwy Ganghellor ym Mhrifysgol Cymru, mae Barry yn Gymrawd o bump o Brifysgolion Cymru, yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru, ac yn Farchog Urdd Sant Ioan. Mae wedi cyhoeddi nifer o erthyglau mewn llyfrau a chyfnodolion, yn ogystal â llyfr ar farddoniaeth R S Thomas. Hefyd, roedd Barry'n Gadeirydd Comisiwn ar Ddigartrefedd yng Nghymru yn 2007, ar ran Shelter Cymru.